# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd/ Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 23 Medi 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

## 290(v5)

**Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.**

**Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.**

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

### 1 Datganiad gan y Prif Weinidog - Cadw Cymru'n Ddiogel rhag Coronafeirws

(45 mun)

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

(45 munud)

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

(45 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 5 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Ni dderbynniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 6 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## 7 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol

(5 munud)

**NDM7388** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Medi 2020;

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad B o adroddiad y Pwyllgor Busnes; a

3. Yn nodi bod y cynnig hwn yn dod i rym pan fydd adran 28 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn cael ei chychwyn drwy orchymyn a wneir o dan Adran 42 (3) (b) o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

## 8 Cynnig i sefydlu pwyllgor o dan Reol Sefydlog 16.3: Pwyllgor y Llywydd

(5 munud)

**NDM7389** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3:

1. Yn sefydlu Pwyllgor y Llywydd i gyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 18.B2; ac

2. Yn nodi bod y cynnig hwn yn dod i rym pan fydd adran 28 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn cael ei chychwyn drwy orchymyn a wneir o dan Adran 42 (3) (b) o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

## 9 Cynnig i ethol Aelod i Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

(5 munud)

**NDM7390** [Elin Jones (Ceredigion)]

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Caroline Jones (Annibynnol) yn aelod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

## 10 Cynnig i ethol Aelodau i Bwyllgor y Llywydd

(5 munud)

**NDM7391** [Elin Jones (Ceredigion)]

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3 a Rheol Sefydlog 18B.4:

1. Yn ethol y canlynol yn aelodau o Bwyllgor y Llywydd:

a) Y Dirprwy Lywydd yn Gadeirydd y Pwyllgor;

b) Llyr Gruffydd, (cadeirydd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19); a

c) Rhianon Passmore (Llafur Cymru), Suzy Davies (Ceidwadwyr Cymreig), Dai Lloyd (Plaid Cymru), a David Rowlands (Plaid Brexit).

2. Yn nodi bod y cynnig hwn yn dod i rym pan fydd adran 28 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn cael ei chychwyn drwy orchymyn a wneir o dan Adran 42 (3) (b) o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

[Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.]

## 11 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol

(60 munud)

**NDM7385** [Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)]

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Gorffennaf 2020.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Medi 2020.

## 12 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Addysg Uwch

(60 munud)

**NDM7387 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi pwysigrwydd addysg uwch ac addysg bellach i Gymru a'i heconomi.

2. Yn credu bod myfyrwyr yn haeddu gwerth am arian yn gyfnewid am y buddsoddiad a wnânt yn eu haddysg uwch ac addysg bellach.

3. Yn gresynu at effaith pandemig y coronafeirws ar fyfyrwyr yng Nghymru a sut y tarfwyd ar gyrsiau.

4. Yn croesawu'r adnoddau ariannol ychwanegol a ddarparwyd i golegau a phrifysgolion Cymru i'w cefnogi drwy'r pandemig.

5. Yn nodi na fu gostyngiad yn y ffioedd a delir gan fyfyrwyr i adlewyrchu effaith andwyol y pandemig ar eu hastudiaethau.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gweithio gyda cholegau a phrifysgolion i sicrhau bod ffioedd yn adlewyrchu effaith pandemig y coronafeirws ar eu cyrsiau;

b) sicrhau bod myfyrwyr yn manteisio ar y cyfle i gael mynediad at ddysgu naill ai drwy fod yn bresennol neu, os bydd cyfyngiadau COVID-19 na ellir eu hosgoi, drwy fwy o ffrydio byw; ac

c) mynd i'r afael â phryderon myfyrwyr, cyflogwyr a darparwyr addysg bellach ac addysg uwch mewn perthynas â lleihau maes llafur rhai cyrsiau sy'n cyfrannu at ofynion mynediad ar gyfer colegau a phrifysgolion.

**Gwelliant 1 Siân Gwenllian (Arfon)**

Dileu pwynt 4 ac ailrifo'n unol â hynny.

**Gwelliant 2** [Rebecca Evans (Gwyr)]

Dileu pwyntiau 5 a 6 a rhoi yn eu lle:

Yn croesawu ymdrechion myfyrwyr, colegau a phrifysgolion i barhau i weithredu'n ddiogel ac yn effeithiol mewn amgylchiadau heriol dros y tymor nesaf, ac yn diolch iddynt am eu hymdrechion.

Yn nodi gwaith helaeth colegau a phrifysgolion i gynnal cyfleoedd dysgu, naill ai wyneb yn wyneb neu, lle nad oedd modd osgoi cyfyngiadau COVID-19, drwy wersi, asesu a chymorth ar-lein.

Yn nodi'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi darparwyr addysg uwch a phellach i baratoi ar gyfer y tymor newydd ac agor campysau yn ddiogel.

**Os derbynnir Gwelliant 2, bydd Gwellianau 3 a 4 yn cael ei ddad-ddethol]**

**Gwelliant 3** [Siân Gwenllian (Arfon)]

Dileu is-bwynt 6(a) a rhoi yn ei le:

sicrhau bod gan y sector addysg uwch ddigon o adnoddau i alluogi sefydliadau i barhau i gynnal safonau a pharhau i ehangu mynediad;

**Gwelliant 4** [Siân Gwenllian (Arfon)]

Cynnwys is-bwynt 6(b) newydd ac ailrifo'n unol â hynny:

gweithio gyda'r sectorau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith i sicrhau bod ganddynt adnoddau digonol a chynaliadwy i ddarparu'r cyfleoedd dysgu gorau posibl, yn enwedig i ddysgwyr difreintiedig, ar yr adeg heriol hon;

Canllawiau ar weithredu'n ddiogel mewn addysg ôl-16 o fis Medi 2020 ymlaen

## 13 Dadl Plaid Cymru - Ail Gartrefi

(60 munud)

**NDM7386** [Sian Gwenllian (Arfon)]

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod yr argyfwng tai sy'n bodoli mewn sawl cymuned yng Nghymru ac yn cydnabod yn benodol effaith andwyol lefelau anghynaladwy ail gartrefi sy'n arwain at amddifadu pobl leol rhag gallu cael cartref yn y cymunedau hynny.

2. Yn croesawu'r camau y mae rhai awdurdodau lleol wedi'u cymryd yn sgil darpariaethau Deddf Tai (Cymru) 2014 i gyflwyno premiwm treth gyngor ar ail gartrefi fel un dull o geisio newid ymddygiad ynghylch defnydd ail gartrefi ac i hwyluso cyflwyno mesurau i ddiwallu'r angen lleol am dai, ond yn cytuno bod rhaid wrth ymyrraeth ac arweiniad o'r newydd ar lefel genedlaethol erbyn hyn.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu yn ddi-oed i ddatblygu a chyflwyno pecyn o fesurau fyddai'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

a) defnyddio'r gyfundrefn gynllunio i reoli'r gallu i newid defnydd tŷ annedd o fod yn brif gartref i fod yn ail gartref;

b) galluogi cyflwyno cap ar y gyfran o'r holl stoc tai mewn cymuned y gellid eu defnyddio fel ail gartrefi mewn cymunedau lle mae'r crynodiad o ail gartrefi eisoes yn anghynaladwy;

c) diweddaru'r gyfraith sy'n golygu nad oes rhaid talu'r un geiniog o dreth gyngor ar rai ail gartrefi fel mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd;

d) dyblu uchafswm premiwm y dreth gyngor y gellid ei godi ar ail gartrefi i o leiaf 200 y cant i atgyfnerthu'r gwaith sydd eisoes yn digwydd mewn rhai awdurdodau lleol i geisio newid ymddygiad o gwmpas defnyddio ail gartrefi, codi refeniw i'w fuddsoddi mewn tai cymdeithasol ac i ddigolledu cymunedau am sgileffeithiau andwyol gorddefnydd ail gartrefi ar gymunedau a gwasanaethau lleol;

e) dyblu cyfradd uwch y dreth trafodiadau tir ar unwaith am gyfnod cychwynnol o chwe mis i geisio atal prisiau tai rhag mynd ymhellach o gyrraedd y boblogaeth leol a'r rhai sy'n prynu am y tro cyntaf mewn nifer o gymunedau;

f) cymryd camau cadarnhaol i hwyluso mynediad at dai am bris sydd o fewn cyrraedd y farchnad leol, gan gynnwys y posibilrwydd o annog datblygu tai gydag amodau marchnad leol arnynt;

g) annog a rhoi blaenoriaeth i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i brynu tai gwag i'w datblygu er mwyn diwallu'r angen lleol am dai cymdeithasol; a

h) edrych o'r newydd ar y diffiniad dŷ fforddiadwy.

Deddf Tai (Cymru) 2014

**Gwelliant 1 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod yr argyfwng tai sy’n bodoli mewn sawl cymuned yng Nghymru a'r angen i alluogi pobl leol i gael mynediad i gartrefi yn y cymunedau hynny.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu yn ddi-oed i ddatblygu a chyflwyno pecyn o fesurau fyddai’n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

a) cymryd camau cadarnhaol i hwyluso mynediad at dai ar bris sydd o fewn cyrraedd pobl leol, gan gynnwys ailgyflwyno hawl i brynu wed'i diwygio ac archwilio'r opsiynau ar gyfer annog datblygu tai gydag amod lleol arnynt;;

b) annog a rhoi blaenoriaeth i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i brynu tai gwag i’w datblygu er mwyn diwallu’r angen lleol am dai cymdeithasol; ac

c) egluro beth yw cartref fforddiadwy.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r sector twristiaeth ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio i sefydlu sylfaen dystiolaeth ar gyfer polisi ynghylch cymhwysedd i gofnodi llety hunanarlwyo ar y rhestr ardrethu annomestig.

*Os derbynnir Gwelliant 1, caiff Gwelliannau 2 a 3 yn cael eu ddad-ddethol*

**Gwelliant 2** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod her ail gartrefi - a thai gwag - i'r cyflenwad o dai fforddiadwy mewn rhai cymunedau yng Nghymru.

2. Yn croesawu ymrwymiad hirsefydlog Llywodraeth Cymru i ddarparu tai fforddiadwy o ansawdd uchel, gan gydnabod eu rôl hanfodol fel sylfaen i gymunedau cynaliadwy cryf.

3. Yn croesawu, er bod y pandemig wedi cael effaith ar adeiladu tai fforddiadwy, y bydd Llywodraeth Cymru'n cyrraedd y targed o 20,000 erbyn diwedd tymor y Senedd hon, a fydd yn helpu i ddiwallu'r angen am dai lleol.

4. Yn nodi mai Cymru yw'r unig wlad yn y DU lle mae awdurdodau lleol yn gallu codi premiwm o hyd at 100 y cant o gyfradd safonol y dreth gyngor ar ail gartrefi ac eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir.

5. Yn nodi ymhellach na wnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu gostyngiad treth dros dro yng Nghymru, yn wahanol i weddill y DU, i fuddsoddwyr prynu i osod, buddsoddwyr mewn llety gwyliau na phrynwyr ail gartrefi.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad trylwyr o berchnogaeth ail gartrefi yng Nghymru a'r mesurau a allai fod yn angenrheidiol i sicrhau bod anghenion unigolion, cymunedau a'r economi, yn enwedig yr economi ymwelwyr, yn cael eu cydbwyso. Dylai adolygiad o'r fath ystyried rôl trethiant, cynllunio, rheoleiddio lleol ynghyd â'r cyflenwad o dai fforddiadwy o bob math a mynediad atynt.

*[Os derbynnir Gwelliant 2, caiff Gwelliant 3 ei dad-ddethol]*

**Gwelliant 3** Neil McEvoy (Canol De Cymru)

Yn is-bwynt 3(g), ar ôl 'chymdeithasau tai' ychwanegu:

', drwy brynu gorfodol os oes angen,'

## 14 Cyfnod pleidleisio

## 15 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7377** Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Adeiladu'r sylfeini ar gyfer newid: effaith Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol Llywodraeth Cymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 29 Medi 2020

Eitem 2

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 16/09/2020 i'w hateb ar 23/09/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OQ55560

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyllideb hydref 2020?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

2 OQ55573

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lywodraethiant prosiectau cyhoeddus a gaiff eu hariannu gan Lywodraeth Cymru?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

3 OQ55554

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gynigion Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid i gwblhau ffordd liniaru'r M4?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

4 OQ55537

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gyllid canlyniadol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael o ganlyniad i gronfa Llywodraeth y DU ar gyfer adfer adeiladau sydd â deunydd cladin nad yw'n alwminiwm?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

5 OQ55535

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am refeniw o'r dreth trafodiadau tir?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

6 OQ55543

**(e)**

Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran ail-lunio caffael cyhoeddus er mwyn cryfhau'r economi sylfaenol?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

7 OQ55565

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyllid ychwanegol i gefnogi cyllid llywodraeth leol?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

8 OQ55529

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch y pwysau ariannol ar awdurdodau lleol?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

9 OQ55532

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch am bolisi Llywodraeth Cymru o ran y dreth trafodiadau tir?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

10 OQ55569

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch dyraniadau cyllideb ychwanegol ar gyfer y portffolio iechyd oherwydd COVID-19?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

11 OQ55550

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

12 OQ55561

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer y dirwyon y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn atebol amdanynt dros y 18 mis diwethaf?

## Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

1 OQ55542

**(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chlybiau chwaraeon ar lawr gwlad i'w helpu i gysylltu â chymunedau?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

2 OQ55553

**(e)**

Pa gymorth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i helpu chwaraeon hamdden yng Nghymru dros gyfnod y gaeaf?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

3 OQ55541

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am farchnata a hyrwyddo canolbarth Cymru fel cyrchfan i dwristiaid?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

4 OQ55536

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo'r Gymraeg ymysg plant ifanc?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

5 OQ55559

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i dwristiaeth yng ngogledd Cymru?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

6 OQ55538

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch effaith ail gartrefi ar yr iaith Gymraeg?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

7 OQ55567

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau datblygu rhyngwladol presennol Llywodraeth Cymru?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

8 OQ55572

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi twristiaeth dros y 12 mis nesaf?

**Hefin David** *Caerffili*

9 OQ55574

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau Llywodraeth Cymru â'r diwydiant teithio ynghylch effaith cyfyngiadau COVID-19 ar dwristiaeth yng Nghymru?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

10 OQ55571

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi sefydliadau treftadaeth ac atyniadau hanesyddol yng Nghymru y mae'r achosion o'r coronafeirws wedi effeithio arnynt?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

**11** OQ55551

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith COVID-19 ar chwaraeon cymunedol a gweithgarwch corfforol yng Nghymru?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

**12** OQ55570

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r manteision i Gymru sy'n deillio o gytundebau masnach Llywodraeth y DU â gwledydd y gymanwlad?

## Comisiwn y Senedd

**Sian Gwenllian** *Arfon*

**1** OQ55557

**(w)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am statws y Gymraeg yng ngwaith y Senedd yng ngoleuni dyfarniad y llys gweinyddol yn achos Driver yn erbyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

**2** OQ55562

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am y materion ymarferol sy'n gysylltiedig â chynnal cyfarfodydd pwyllgor hybrid yn Senedd Cymru?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**3** OQ55564

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Comisiwn wedi'u cael ar sut i hysbysu etholwyr am etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021 er gwaethaf cyfyngiadau coronafeirws?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**4** OQ55575

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am sut y defnyddir y gyllideb a ddyrennir ar gyfer dodrefn a ffitiadau?